



Cymru Gwrth Hiliol Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil i Gymru

CICau ydy corff gwarchod annibynnol

Mae Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) yn falch o gyflwyno'r ymateb yma i'r ymgynghoriad ar ran Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) yng Nghymru.

Cyrff annibynnol ydy CICau sydd yn adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sydd yn byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae CICau yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais yn nyluniad, cynllunio a darpariaeth gwasanaethau GIG.

Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynnwys aelodau gwirfoddol lleol sydd yn byw yn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethau, gyda chefnogaeth tîm bychan o staff cyflogedig. Mae pob CIC yn:

- Cynnal ymweliadau rheolaidd i wasanaethau iechyd i glywed gan bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sydd yn darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr
- Ymestyn allan yn ehangach i bobl mewn cymunedau lleol i roi gwybodaeth ac i gasglu barn a phrofiadau am wasanaethau GIG
- Mae CICau yn defnyddio'r hyn maen nhw'n ei glywed i weld sut mae'r gwasanaethau yn perfformio'n gyffredinol a sicrhau bod y GIG yn gweithredu i wneud pethau'n well lle mae angen hynny
- Cymryd rhan gyda rheolwyr gwasanaeth iechyd pan maen nhw'n ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu fel bod pobl a chymunedau yn cael llais o'r cychwyn

- Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sydd am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth GIG.

Mae Bwrdd CICau (y Bwrdd) yn bodoli i gefnogi, rhoi cymorth, cynghori a rheoli perfformiad CICau. Mae'n cynrychioli barn CICau ar draws Cymru.

Cwestiynau:

1. Ydy'r weledigaeth, pwrpas, gwerthoedd a'r dyfodol a ddychmygir i 2030 yn adlewyrchu yr hyn yr hoffech ei weld wedi ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystro'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwireddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?

Mae'r weledigaeth a'r gwerthoedd yn adlewyrchu'r hyn yr hoffai ein mudiad CIC ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030.

Mae'r adran gweledigaeth yn siarad am ddatblygu cyd - ddealltwriaeth am hil, creu canlyniadau cyfartal a dathlu gwahaniaeth. Mae'r rhain yn rhagdybio taith ar y cyd i holl bobl Cymru.

Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y weledigaeth a'r gwerthoedd yn cael eu rhannu ac nid yn cael eu gwthio.

Fe ddylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio rhaglenni gwaith newid ymddygiad ar gyfer y gwaith gwerthfawr yma i

sicrhau'r cyfle gorau o lwyddiant.

2. We would like your views on the goals and actions. To comment on some or all of the goals, actions and outcomes please reflect on the below:

(a) Does the explanation (narrative / background) make clear why we have chosen the goals and actions in this policy area?

Mae'r naratif/gwybodaeth gefndir yn disgrifio'n glir pam bod rhaid cynnig yr amrywiol nodau a champau gweithredu.

Mae'r cynllun yn cydnabod bod strategaethau a deddfwriaeth sydd yn bodoli wedi methu cynhyrchu canlyniadau a phrofiadau gwahanol i bobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig. Gellid cryfhau'r cynllun ymhellach pe bai cyrff yn cael cais i rannu unrhyw heriau a wynebwyd wrth gyflawni ar strategaethau a ddeddfwriaeth cyfredol fel bod camau gweithredu hefyd wedi eu teilwra i ddelio gyda'r rhain. Yn yr un modd, gellid defnyddio adborth cadarnhaol hefyd gan gyrff i gryfhau'r cynllun

(b) Is it missing any priorities, background or other information?

Dydyn ni ddim yn teimlo bod unrhyw wybodaeth ar goll, ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod.

**(c) Do you agree with the selected goals and actions?
What would you add or take away in relation the
actions?**

Ydym, rydym yn cytuno gyda'r holl nodau a champau gweithredu sydd yn y cynllun gweithredu, ond teimlwn bod angen buddsoddi digon o adnoddau i'r gwaith newid ymddygiad cenedlaethol er mwyn datblygu dealltwriaeth ar draws y boblogaeth.

**(d) Will each goal and associated actions create the
desired outcomes we have stated? If not, what would
you want to change so that we achieve changes that
are truly anti-racist in the time scales stated?**

Dydym ni ddim yn teimlo y dylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y cynllun gweithredu ac eithrio'r hyn a drafodwyd eisoes uchod.

Teimlwn ei bod yn bwysig bod y camau gweithredu yn y cynllun yn cael eu gweithredu ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rydym felly yn cynnig bod awdurdodau yn adrodd yn flynyddol i'r Grŵp Atebolrwydd.

ran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym yn croesawu'r cynigion i newid y fframwaith atebolrwydd i wneud y gofynion i ddelio gyda hiliaeth yn glir ac i adrodd ar hyn o fewn cynlluniau tymor canolig ac adroddiadau cynllun blynyddol. Rydym hefyd yn croesawu'r defnydd o

ddatganiadau cyhoeddus gan y byddant yn rhoi hyder i'r cyhoedd bod gweithredu yn digwydd ar draws Cymru.

(e) How could the positive or negative effect be increased, or mitigated?

Fel uchod.

3. Are there any goals and actions that you can think of that are missing? Who should deliver on them and what actions would help to deliver them?

Dim yn berthnasol

4. What are the key challenges that could stop the goals and actions achieving anti-racism by 2025?

Roeddem yn falch o ddarllen bod y cynllun gweithredu wedi cynnwys hyfforddiant gan ein bod yn teimlo bod datblygu a darparu hyfforddiant priodol yn hanfodol i sicrhau bod uwch arweinwyr yn gallu gweithredu o fewn y cynllun.

Teimlwn fod cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn hanfodol, ac felly dylai awdurdodau adolygu ac ystyried sut maen nhw'n rhoi gwybod i'r cyhoedd sut y maen nhw'n gallu cymryd rhan.

Rydym hefyd yn croesawu'r cynnig i adolygu y broses gwynion

yn annibynnol. Mae angen i bobl ddeall sut i gwyno a chael sicrwydd y byddant yn cael eu clywed os ydyn nhw'n siarad i fyny. Fe fydd Corff Llais y Dinesydd mewn sefyllfa i sicrhau bod gan bawb lais, ond i gyflawni hyn rhaid rhoi adnoddau priodol i Gorff Llais y Dinesydd.

5. What resources (this could include funding, staff time, training, access to support or advocacy services among other things) do you think will be necessary in achieving the goals and actions outlined?

Er mwyn i'r cynllun gweithredu fod yn effeithiol, mae'n bwysig sicrhau bod uwch arweinwyr yn deall eu rôl o fewn y cynllun gweithredu a bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu.

Fe fydd Corff Llais y Dinesydd yn gallu cefnogi'r cyhoedd i gael llais ac os oes angen, codi cwynion yn erbyn darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Teimlwn ei bod yn hanfodol bod adnoddau digonol ar gael i sicrhau bod modd cynnig hyfforddiant priodol i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, yn enwedig y rhai allai brofi hiliaeth croestoriadol.

6. Do you feel the Race Equality Action Plan adequately covers the intersection of race with other protected characteristics, such as religion or belief, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, sex, and

marriage and civil partnership? If not, how can we improve this?

Rydym yn credu bod y cynllun gweithredu yn ystyried yr holl nodweddion gwarchoddedig a'r croestoriadau rhwng y rhain.

7. Please see the section on Governance. What suggestions can you provide for measuring success in creating an anti-racist Wales and for strengthening the accountability for implementation?

Rydym yn falch o nodi y bydd arweinwyr yn cael eu dal yn bersonol atebol ac y bydd cynlluniau yn cael eu cynnwys mewn IMTP's. Fe fyddem yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymgysylltu yn gynnar gydag arweinwyr a chyn i'r cynllun gweithredu ddod i rym am y rhesymau a ddisgrifiwyd eisoes uchod.

Rydym hefyd yn falch o nodi y bydd Grŵp Atebolrwydd yn cael ei gyflwyno a theimlwn bod cwmpas y grŵp yma yn briodol.

8. We would like to know your views on the effects that these proposals would have on the Welsh language, specifically on opportunities for people to use Welsh and on treating the Welsh language no less favourably than English.

Teimlwn bod y cynllun gweithredu wedi ystyried yr iaith Gymraeg ac fe fydd y camau gweithredu cysylltiedig yn

cefnogi'r defnydd o'r iaith.

What effects do you think there would be? How could positive effects be increased, or negative effects be mitigated?

Rydym wedi awgrymu, uchod, y dylid cynnal rhaglen waith cyfathrebu ac ymgysylltu newid ymddygiad i roi'r cyfle gorau i'r cynllun lwyddo. Mae angen rheoli negeseuon yn sensitif fel nad oes yn yr grŵp o bobl yn teimlo eu bod wedi cael eu heithrio.

9. Please also explain how you believe the proposed policy approach could be formulated or changed so as to have positive effects or increased positive effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language, and no adverse effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language.

Dim yn berthnasol

10. This plan has been developed in co-construction, and discussions around language and identity have shown that many people do not consider the term 'BAME' to be appropriate. As a result we refer to Black, Asian and Minority Ethnic people or particular ethnic minority people in the Plan. However, we recognise that this

term is also problematic and, where possible, being more specific to the particular race or ethnicity an individual or community identifies with is generally preferred.

However, there are times where it is necessary to make reference to all those people who share the experience of being subject to racism. We have used the term Black, Asian and Minority Ethnic people for this purpose. What are your views on this term and is there an alternative you would prefer?

Dim yn berthnasol

11. We have asked a number of specific questions. If you have any related issues which we have not specifically addressed, please use this space to report them.


Gallai fod yn ddefnyddiol cael dogfen benodol i feysydd gwasanaeth sydd yn cynnwys themâu sydd yn traws dorri fel bod gan gyrff yr holl wybodaeth berthnasol mewn dogfennau sydd yn berthnasol yn unig iddyn nhw. Lle mae gorgyffwrdd, gellid trawsgyfeirio'r rhain i'r brif ddogfen.

Dylid egluro ymhellach y gwahaniaeth rhwng gweithredu positif, gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu positif fel bod cyrff wedi'u harfogi i gymryd y camau cywir. O ran cyfathrebu a marchnata'r camau gweithredu yn y cynllun, efallai y bydd aelodau'r cyhoedd yn ei chael yn heriol i ddeall y

gwahaniaethau. Felly fe fydd angen gwneud hyn yn glir.

Nodwn y bydd disgwyl i Iechyd a Gofal Cymdeithasol ateb gofynion y cynllun ynghynt na chyrff eraill. Dydy hi ddim yn amlwg os byddai hyn yn cynnwys cyrff a gyllidir gan adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru neu yn unig y rhai sydd yn darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn uniongyrchol i gleifion ac aelodau'r cyhoedd. Fe fyddai amcangyfrif o amserlen ar gyfer pryd y byddai disgwyl i gyrff eraill a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ateb y gofynion er mwyn gallu cynllunio ymlaen yn ddefnyddiol.

Manylion Cyswilt Bwrdd CICau



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng
Nghymru
33 / 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB



02920 235 558



@waleschc.org.uk



www.communityhealthcouncils.org.uk



@CHC_Wales